Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas y Garn**

**Cartref Preswyl Plas y Garn**
**Park Gardens Penygarn**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 8DB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Plas y Garn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Mehefin 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn canmol y staff ond mae ganddynt farn gymysg am y gwasanaethau a ddarperir. Gwelsom fod y preswylwyr yn edrych yn hamddenol ac yn gyfforddus. Ers ein hymweliad arolygu diwethaf, mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i benodi i oruchwylio rheolaeth y gwasanaeth a'r rheolwr i gynnal ei weithrediadau o ddydd i ddydd. Cyflogwyd ail weithiwr gweithgareddau sy'n galluogi gweithgareddau i gael eu darparu chwe diwrnod yr wythnos. Mae newidiadau wedi'u gwneud i batrymau gwaith y staff gyda'r staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i gwmpasu prinder staff. Mae'r arferion recriwtio staff wedi gwella. Mae angen cryfhau trefniadau goruchwylio'r gwasanaeth gan fod y systemau a gyflwynwyd i fynd i'r afael â diffygion yn aneffeithiol. Mae'r sefydliad wedi cyflwyno systemau llywodraethu i fynd i'r afael â diffygion y maent wedi'u nodi ond gwelsom eu bod yn parhau. Nododd ymweliad gan Iechyd yr Amgylchedd nifer o achosion o dorri safonau diogelwch bwyd sydd wedi arwain at sgôr hylendid bwyd is o ddau.

## Llesiant

Anogir y bobl i roi eu barn er na wrandewir arnynt bob amser. Gall y bobl gael eu cynnwys cymaint ag y dymunant fod yn ystod y broses o lunio ac adolygu eu cynllun personol. Mae'r sefydliad yn ymgynghori'n rheolaidd â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth fel rhan o'u prosesau sicrhau ansawdd. Mae cyfarfodydd y preswylwyr yn rhoi dewis i'r unigolion ar y ffordd y mae’r gwasanaeth yn cael ei redeg, megis rhoi eu barn am ddewisiadau bwydlen a sawl gwaith y maent am i rywun alw heibio yn ystod y nos, ond gwelsom nad yw’r awgrymiadau wedi’u gweithredu eto. Cafwyd barn gymysg am y gwasanaeth gan yr unigolion a oedd yn byw yn y gwasanaeth. Dywedodd un person wrthym sut yr effeithiodd arno fyw ochr yn ochr â phobl o alluoedd cymysg gan ddweud, “*I have no one to talk with which makes my days long”* wrth i un arall ddweud, “*it’s ok I can’t complain”* ac *“all is good.”* Roedden nhw i gyd yn cytuno*“staff are wonderful.”*

Caiff anghenion iechyd meddwl y bobl eu diwallu. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar y cyd â'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gefnogi'r unigolion â'u hanghenion iechyd. Caiff iechyd y bobl ei fonitro'n rheolaidd. Yn gyffredinol, mae'r gofalwyr yn rhagweithiol wrth wneud atgyfeiriadau amserol i wasanaethau meddygon teulu, er y dywedwyd wrthym am fater cyfathrebu unigol yn ddiweddar a arweiniodd at oedi yng ngofal a thriniaeth person. Gwelsom fod angen i gynlluniau personol y bobl adlewyrchu eu hanghenion gofal a chymorth yn llawn. Mae asesiadau risg yn eu lle ond mae angen ystyried cymryd risgiau cadarnhaol yr unigolion yn ogystal â'u hanghenion diogelwch. Roedd y sefydliad yn cydnabod yr angen am fwy o gefnogaeth emosiynol i'r bobl ac mae wedi cynyddu'r ddarpariaeth gweithgareddau yn y gwasanaeth i chwe diwrnod yr wythnos.

Yn gyffredinol, mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, ond yn aml mae'n rhaid iddynt aros am gymorth. Mae systemau ar waith i fonitro damweiniau a digwyddiadau ac mae atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i'r asiantaethau perthnasol, yn ôl yr angen. Mae'r darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu er budd pennaf y person a bod awdurdod cyfreithlon ar waith lle bo angen. Mae hyfforddiant y staff mewn diogelu wedi'i nodi fel blaenoriaeth gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae polisïau'r sefydliad yn hygyrch i'r holl staff. Dywedodd y bobl wrthym y gall lefelau staffio presennol olygu bod yr unigolion yn aml yn gorfod aros am help gyda'u gofal a'u cymorth.

Nid yw'r amgylchedd yn annog y bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Mae angen buddsoddiad drwyddo draw gan fod yr addurn yn edrych yn flinedig ac wedi treulio. Byddai nifer o ardaloedd yn elwa o waith atgyweirio megis ardaloedd cegin a thoiledau cymunedol oherwydd staenio trwm ar arwynebau gwaith a lloriau. Mae angen rhoi sylw i ystafelloedd gwely rhai o'r preswylwyr, ac mae pob un ohonynt yn tynnu oddi ar ymdeimlad y gwasanaeth o fod yn gartrefol. Mae arwyddion yn cefnogi cyfeiriadedd y bobl o amgylch yr eiddo.

## Gofal a Chymorth

Ni all y bobl fod yn hyderus bod ganddynt gynllun cywir a chyfredol ynghylch sut y bydd eu gofal yn cael ei ddarparu. Gwelsom wybodaeth anghyson yng nghynlluniau'r bobl nad oedd yn adlewyrchu eu hanghenion yn llawn. Mae’r cynlluniau’n canolbwyntio ar yr unigolyn ond nid ydynt yn cynnwys canllawiau i'r staff eu dilyn i leihau risgiau i’r person ac eraill, er enghraifft, gofal clwyfau a/neu reoli ymddygiadau unigol.
Mae angen i asesiadau risg y bobl ystyried cymryd risgiau cadarnhaol yn ogystal ag iechyd a diogelwch y bobl. Gwelsom nifer o asesiadau risg generig ar waith nad ydynt o reidrwydd yn cefnogi'r unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae cynlluniau'r bobl yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ond ni fyddant yn ymgynghori ag unigolion bob amser yn ystod y broses. Mae hyn yn golygu nad yw canlyniadau rhai o'r bobl yn cael eu hystyried yn llawn sy’n eu gwneud yn ddibynnol ar eraill yn gwneud penderfyniadau drostynt. Mae’r sefydliad eisoes wedi nodi bod angen gwella cynlluniau gofal y bobl. Nodwn ddiffyg trylwyredd ar ran y darparwyr i fynd i'r afael â'r diffygion a oedd yn dal yn bresennol yn ein hymweliad arolygu.

Mae gan y darparwr gwasanaeth system ar waith i bennu nifer y staff ac ystod y sgiliau i ddiwallu anghenion y bobl a’u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Ers ein harolygiad diwethaf, bu nifer o newidiadau yn y gwasanaeth gan gynnwys patrwm gwaith y staff a’r defnydd o'r staff asiantaeth i ategu’r tîm o staff. Amlygodd adborth a gawsom yn ystod ein harolygiad wahaniaethau yn lefel y gofal a ddarperir i'r unigolion. Er enghraifft, dywedwyd wrthym fod yn rhaid i rai o'r bobl aros am gymorth. Dywedwyd wrthym hefyd fod gwahaniaeth yn safon y gofal a dderbyniwyd gan y staff parhaol o gymharu â'r staff asiantaeth. Dywedwyd wrthym fod digon o'r staff bellach wedi'u recriwtio i'r tîm.

Mae'r bobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd. Mae camau wedi'u cymryd er mwyn i'r bobl sy'n byw yng nghartref Plas y Garn gymdeithasu ag eraill yn ystod sesiynau gweithgaredd grŵp. Mae'r unigolion yn edrych ymlaen at dywydd cynhesach i gael prydau al fresco a defnyddio ardal patio ar gyfer gweithgareddau. Gwelsom fod y cofnodion o weithgareddau'r bobl yn anghyson, sy’n golygu nad oeddem yn gallu canfod pa mor aml y mae'r unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac a ydynt yn eu mwynhau.

Mae'r gwasanaeth wedi cryfhau ei systemau rheoli meddyginiaeth. Mae archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal sy’n dangos gwelliant o ran cydymffurfio gan gynnwys adolygu cofnodion rhoi meddyginiaeth y bobl (MAR) a gwiriadau stoc arferol. Nid oeddem yn gallu asesu a yw'r argymhellion a wnaed yn yr archwiliad diwethaf wedi'u bodloni ac adborth wedi'i roi i'r Unigolyn Cyfrifol. Nid yw effeithiolrwydd meddyginiaeth PRN “yn ôl yr angen” yn cael ei ddogfennu fel mater o drefn sy’n cyfyngu ar allu'r staff i fonitro meddyginiaeth yr unigolyn.

## Yr Amgylchedd

Mae'r safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar yn addas i ddarparu'r gwasanaeth. Gwelsom fod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn gyfforddus er bod angen adfywio'r décor. Mae ystafelloedd y bobl yn adlewyrchu pwy ydynt ac roedd eu heitemau personol a phethau bach i gofio i'w gweld. Mae angen sylw ar rai ystafelloedd gyda llenni yn hongian oddi ar y rheiliau ac angen ailaddurno cyffredinol. Dywedwyd wrthym fod gan y tasgmon raglen atgyweirio a chynnal a chadw wedi'i chynllunio ar waith a ddarparwyd ar ôl ein harolygiad.

Mae archwiliadau rheolaidd ar waith i fonitro iechyd a diogelwch y safle, y cyfleusterau a'r offer. Mae arolygiad Iechyd yr Amgylchedd wedi rhoi gradd o ddau i safonau bwyd y gwasanaeth sy'n golygu bod angen gwelliannau. Fe'n sicrhawyd bod mesurau wedi'u cymryd i unioni hyn gyda'r staff yn derbyn hyfforddiant mewn hylendid bwyd. Fe'n hysbyswyd oherwydd problemau recriwtio nad oes unrhyw weithwyr domestig yn gweithio yn y gwasanaeth ar ôl 2pm ac ar rai penwythnosau. Mae hyn yn golygu bod y staff gofal yn cael eu galw i reoli glendid yr amgylchedd. Mae archwiliadau mewnol wedi nodi rhai meysydd fel rhai sydd angen mwy o sylw ac mae amserlenni glanhau diwygiedig wedi'u sefydlu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda. Penodwyd y rheolwr i'r gwasanaeth ym mis Ionawr 2023 sydd wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Cânt eu cynorthwyo gan yr arweinydd tîm rhan-amser sy'n rhan o'r tîm rheoli ac sy'n gyfrifol am roi'r newidiadau amrywiol yn y gwasanaeth ar waith. Mae'r uwch-ofalwyr wedi cael eu huwchsgilio ac wedi neilltuo amser i gyflawni eu rôl. Mae gan y staff farn gymysg am gyfathrebu o fewn y tîm staff a'r newidiadau yn y gwasanaeth. Mae'r sefydliad yn cydnabod y bu rhywfaint o wrthwynebiad gan y staff i'r symudiadau. Dywedodd y rheolwr wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan y sefydliad.

Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth drwy sicrhau ansawdd parhaus. Mae archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o ddogfennau gofal a meddyginiaeth y bobl er ein bod yn nodi diffyg cysondeb a dadansoddi. Penodwyd yr Unigolyn Cyfrifol i'r gwasanaeth yn dilyn ein harolygiad diwethaf ac mae wedi cynnal ymweliadau rheolaidd yn unol â'r rheoliadau. Gwelsom ddau adroddiad diwethaf yr Unigolyn Cyfrifol dyddiedig Rhagfyr 2022 a Mawrth 2023. Rydym yn nodi diffyg amserlenni ar gyfer cwblhau'r argymhellion a wnaed. Nododd adroddiad ansawdd gofal y darparwyr, dyddiedig Ebrill 2023, nifer o ddiffygion o ran darparu gwasanaethau. Ar adeg ein harolygiad nid oedd digon o gamau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phob un ohonynt. Er enghraifft, mae angen gwneud gwaith o hyd i sicrhau bod dogfennau gofal y bobl yn cael eu diweddaru a'u hadolygu i adlewyrchu'r unigolyn yn fwy cywir. Rydym yn cydnabod bod gwreiddio'r newidiadau yn cymryd amser a bod angen monitro parhaus o ystyried mai dim ond ers ychydig fisoedd y mae'r tîm rheoli wedi bod gyda'i gilydd. Mae'r maes i'w wella ar gyfer goruchwylio rheolaeth y gwasanaeth yn parhau heb ei fodloni.

Mae trefniadau dethol a fetio ar gyfer y staff rheolaidd yn gadarn er bod angen eu cryfhau ar gyfer y staff asiantaeth. Gwelsom ddau aelod o staff a oedd newydd eu penodi a chanfod y gwiriadau cyn cyflogaeth gofynnol i fodloni eu haddasrwydd i weithio gyda'r bobl sy'n agored i niwed. Ystyrir bylchau mewn cyflogaeth a gwiriadau adnabod yn ystod y broses gyfweld. Hoffem atgoffa'r darparwr gwasanaeth bod y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i dystysgrif geni gael ei chadw fel prawf hunaniaeth ar gyfer pob unigolyn sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff asiantaeth ac ystyried y proffiliau ar gyfer yr aelodau staff sy'n cael eu defnyddio yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff asiantaeth yn cael cyfnod sefydlu cyn gweithio yn y gwasanaeth, er nad oedd y wybodaeth hon ar gael i bob aelod o staff asiantaeth.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant i gyflawni eu rolau. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant sefydlu cydnabyddedig cyn gweithio gyda'r bobl sy'n agored i niwed. Gwelsom gynllun hyfforddi'r gwasanaeth sy'n monitro hyfforddiant y staff unigol. Rydym yn ymwybodol bod gan y sefydliad brosesau ar waith i sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol i ddiweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae'r tîm o staff wedi cael hyfforddiant gloywi mewn ymwybyddiaeth o Ddementia yn ddiweddar. Mae'r staff yn cael eu

goruchwylio'n rheolaidd ac mae hyn yn galluogi'r staff gofal i fyfyrio ar eu harfer a sicrhau bod cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal. Mae'r staff wedi'u cofrestru gyda'r rheoleiddiwr gweithlu Gofal Cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 66 | Mae’r sefydliad wedi nodi nifer o ddiffygion yn y ddarpariaeth gofal a chymorth, ond mae’r systemau y maent wedi’u rhoi ar waith i’w cywiro yn aneffeithiol. | Heb Gyflawni |
| 35 | Yn ystod ein hymweliad â'r gwasanaeth, edrychwyd ar 3 ffeil y staff a chanfod gwybodaeth ar goll ar ffurf prawf adnabod a dim ffotograff ar gyfer y staff a oedd newydd eu penodi. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y ddogfennaeth ofynnol fwy na thebyg gyda phentwr o wybodaeth yr oedd angen ei ffeilio. Roedd ffotograffau o'r staff wedi'u canfod. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/08/2023